BYDDWCH YN RHAN O'N TÎM



Pecyn Gwybodaeth

Ymladdwyr Tân

South Wales
Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

Codi Ymwybyddiaeth - Lleihau Perygl

DISGRIFIAD SWYDD

RHENG

Ymladdwr Tân

LLEOLIAD

Yn ôl cyfarwyddiadau'r Prif Swyddog Tân

PRIF NOD

Diogelu ac achub pobl ac eiddo rhag tân a pheryglon eraill yn y modd mwyaf cymwys ac effeithiol i'r safon uchaf o ofal ac ansawdd sy'n bosibl.

DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Argyfyngau

- Ymateb ar unwaith mewn ffordd ddiogel i bob galwad frys a chais am gymorth.
- Ymdrin ag achosion brys yn ôl cyfarwyddyd a gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon fel aelod o dîm disgybledig
- Lleihau trallod a dioddefaint, gan gynnwys defnyddio cymorth cyntaf

Ymdrin â Phobl

- Sefydlu a chynnal hyder aelodau'r cyhoedd.
- Cynnal cysylltiadau o fewn y gymuned.
- Bod yn sensitif i anghenion pobl eraill, yn arbennig o ran materion tegwch ac urddas.

Diogelwch Tân

- Rhoi cyngor ac arweiniad cyffredinol am ddiogelwch tân i bobl ar gais.
- Gweithio i helpu addysgu aelodau'r gymuned am beryglon tân.
- Cynorthwyo â mentrau, rhaglenni a strategaethau'r Gwasanaeth i leihau galwadau tân.

Iechyd a Diogelwch

- Adnabod materion iechyd a diogelwch yn y gwaith ac ymdrin â nhw i leihau neu i ddileu'r elfennau peryglus neu risg.
- Sicrhau diogelwch personol a diogelwch eraill o hyd.

Ffitrwydd a Glanweithdra Personol

- Cynnal y lefel ffitrwydd corfforol a meddygol angenrheidiol ar gyfer cyflawni holl ddyletswyddau ymladdwr tân/ymladdwraig dân
- Cynnal delwedd, glanweithdra a glendid y wisg yn unol â gwasanaeth disgybledig.

Offer

- Cynnal yr holl offer ymladd tân ac achub fel eu bod yn barod i'w defnyddio, gan gynnwys glanhau, trwsio a phrofi'r offer yn ôl y gofyn at safonau a gweithdrefnau cymeradwy.
- Gwirio'r adnoddau ymladd tân a ddarperir at ddefnydd ymladd tân, gan gynnwys hydrantau a gosodiadau sefydlog.

Daearyddiaeth Leol

- Adnabod y strydoedd, ffyrdd ac adeiladau lleol sydd wedi'u lleoli o gwmpas ardal yr orsaf dân.
- Bod yn ymwybodol o'r peryglon, risgiau posibl a'r cyflenwadau dŵr sydd ar gael o fewn ardal yr orsaf dân.

Gweinyddu

- Cwblhau gwaith papur sylfaenol a gwaith gweinyddu arferol, gan gynnwys cofnodi gwybodaeth.
- Defnyddio technoleg gwybodaeth yn ôl y gofyn ac yn unol â Deddf Diogelu Data 1998.
- Sicrhau y caiff cofnodion personol eu diweddaru.

Hyfforddiant

- Cymryd rhan mewn rhaglen hyfforddiant parhaus trwy fynychu darlithoedd, ymarferion, sesiynau dril ymarfer a ffurfiau eraill ar hyfforddiant i gynnal lefelau cymhwysedd.
- Mynychu cyrsiau hyfforddiant yn ôl cyfarwyddyd.
- Gwneud Gweithredoedd Gwasanaethu Tân Brys – Lefel 3 (CGC)

Awdurdod Tân

Gwneud unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n gymesur â chyfrifoldeb ac arbenigedd y byddai'r Prif Swyddog Tân yn gofyn amdanynt o bryd i'w gilydd. Cadw at bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth.

MANYLEB PERSON

Meini Prawf y Swydd

	Hanfodol	Ffynhonnell Tystiolaeth	Dymunol	Ffynhonnell Tystiolaeth
Sgiliau	Sgiliau cyfathrebu da Gallu ymarferol/â llaw Ymagwedd resymegol at broblemau Gallu i ddilyn cyfarwyddiadau	FfG/PTG PC PC PC/PTG/CYF PROSES GYFAN	Profiad gwaith ymarferol blaenorol Gallu i weithio dan bwysau	FfG/CYF PCY/PYG/CYF
Gwybodaeth	Ymwybyddiaeth o elfennau'r swydd Ymwybyddiaeth o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru Rôl y Gwasanaeth Tân yn y gymuned Elfennau gweithio fel tîm	CYF CYF CYF FfG/CA		
Profiad	Cyfraniad llwyddiannus at waith tîm Cyswllt ag aelodau'r cyhoedd trwy waith neu am resymau eraill	FfG/CYF FfG/CYF	Gwaith yn ymwneud â gwasanaeth cymunedol Gwaith tîm o fewn amgylchedd disgybledig	FfG/CYF FfG/CYF
Cymwysterau			Tystysgrif cymorth cyntaf gyfredol Achub bywydau	FfG FfG
Cyfle Cyfartal	Ymrwymiad i gydraddoldeb/tegwch yn y gwaith	CYF	Ymgymryd â gwaith â thal neu wirfoddol yn y gymuned	FfG/CYF
Gofynion Eraill	Ffitrwydd corfforol/gallu erobig da (gweler cyfnod 3 ar dudalen 8) Golwg boddhaol heb gymorth a golwg lliw (gweler cyfnod 3 ar dudalen 7) Ymrwymiad i'r gwasanaeth a gofal i'r gymuned Clyw da heb gymorth Gallu i weithio ar uchder Gallu i weithio mewn lleoedd cyfyng	PC/A PC/A FfG/CYF PC/A PC PC		

Codau Tystiolaeth
FfG: Ffurflen Gais **PC:** Prawf Corfforol **CYF:** Cyfweliad **PYG:** Profion trin Gwybodaeth
A: Archwiliad Meddygol

Y BROSES DDETHOL

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amlinellu'r broses i ddod yn ymladdwr tân/ymladdwraig dân yng Ngwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i system dyletswydd llawn amser neu ran amser.

Mae'r broses gais yn gallu cymryd hyd at chwe mis i'w gorffen am ei bod yn cynnwys sawl cam.

CAM UN - CAIS

Mae'r ffurflen gais yn chwarae rôl allweddol yn y cam creu rhestr fer, mae'n bwysig bod y ffurflen yn cael ei llenwi'n gyfan gwbl ac yn gywir.

Y wybodaeth a rowch yn eich ffurflen gais yw'r unig wybodaeth a ddefnyddiwn ni wrth benderfynu a fyddwch yn mynd ymlaen i'r cam nesaf. Nid ydym yn gwneud rhagdybiaethau na ffurfio barn am unrhyw ymgeisydd, hyd yn oed os yw wedi gwneud cais o'r blaen, neu os yw eisoes yn gweithio i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

CAM DAU – CREU RHESTR FER

Bydd y wybodaeth a roddir yn pennu a ddylech fynd ymlaen i'r cam nesaf. Rhowch gymaint o wybodaeth ag y gallwch, yn y lle a roddir ynglŷn â'ch sgiliau, eich galluoedd a'ch profiadau. Os nad ydych yn dweud wrthym, ni fyddwn yn gwybod!

Yn yr adran hon, gofynnwn i chi ddweud wrthym am eich sgiliau a'ch profiad mewn perthynas â'r amryw rinweddau a phriodoleddau personol (PQAs), (ceir mwy o wybodaeth am PQAs isod), sy'n ofynnol fel ymladdwr tân/ymladdwraig dân. Gallwch dynnu ar unrhyw un o'ch profiadau i ateb y cwestiynau o fywyd cartref, gweithgareddau hamdden, gwaith (tâl neu ddi-dâl), gwaith gwirfoddol neu addysg.

Cofiwch y pwyntiau cyffredinol canlynol wrth gwblhau'r adran hon:

- Mae'n bwysig i chi ateb pob cwestiwn.
- Ysgrifennwch eich atebion yn daclus ac yn ddealladwy.
- Mae pob cwestiwn yn gofyn i chi ddisgrifio sefyllfa benodol yr ydych wedi cael profiad ohoni. Ar gyfer pob un o'r 6 chwestiwn, dylech ysgrifennu paragraff byr (uchafswm o 150 o eiriau) sy'n disgrifio orau eich profiadau mewn perthynas â'r gweithgareddau y soniwyd amdanyn nhw.
- Byddwch yn benodol am un gweithgaredd yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd neu wedi'i wneud, yn hytrach nag ysgrifennu'n gyffredinol.
- Defnyddiwch enghraifft benodol ar gyfer pob cwestiwn lle rydych wedi dangos y gweithgaredd fwy nag unwaith.
- Ar gyfer pob cwestiwn, disgrifiwch beth wnaethoch, pam y gwnaethoch ef a beth ddigwyddodd o ganlyniad.
- Defnyddiwch enghreifftiau gweddol ddiweddar o beth rydych wedi'i wneud.
- Mae'n syniad da i ysgrifennu'ch atebion yn fras cyn i chi gopïo'r fersiwn terfynol ar y ffurflen gais.
- Mae'n rhaid i'ch atebion ddisgrifio beth rydych wedi'i wneud. Os rhowch wybodaeth ffug, caiff eich cais ei wrthod.

Dangosir ateb enghreifftiol isod.

CWESTIWN ENGHREIFFTIOL

Magu perthnasoedd gwaith a gweithio fel aelod tîm cefnogol

Disgrifiwch sefyllfa lle bu'n rhaid i chi weithio'n agos gydag eraill fel rhan o dîm:

Beth wnaethoch: Pan oeddwn i'n gweithio mewn bwyty bwyd cyflym, sylwais i fod aelod newydd o'r tîm yn cael anhawster gydag amseriad cyflym y gwaith. Gofynnais i sut gallwn i helpu a dywedodd nad oedd e'n gwybod sut i atgyflenwi'r stoc. Dangosais i iddo fe sut i wneud hyn a rhoddais i anogaeth iddo fe. Sylwais i hefyd nad oedd y dechreuwyr newydd yn cael digon o wybodaeth, felly siaradais i â'm rheolwr am roi mwy o wybodaeth i bobl newydd sy'n ymuno â'r tîm.

Pam: Roedd yr aelod tîm newydd yn ei chael hi'n anodd ac yn edrych yn anghyfforddus. Roedd ei dasgau hefyd yn effeithio ar waith pobl eraill a pherfformiad y tîm o ganlyniad.

Beth ddigwyddodd o ganlyniad: Trwy ei helpu a'i annog, gwellodd ei berfformiad, roedd e'n teimlo'n hapusach amdano am ei swydd, a gweithiodd y tîm yn well gyda'i gilydd. Y tro nesaf i rywun ymuno â'r tîm, roedd e'n gwybod mwy am sut i wneud ei swydd ac felly roedd e'n gallu ymdopi'n well.

Oherwydd nifer helaeth y ceisiadau a geir, nid oes modd rhoi adborth unigol.

CAM TRI - PROFION TRIN GWYBODAETH

PRAWF GALLU YMLADDWYR TÂN CENEDLAETHOL (NFA)

Os llwyddwch y cam hidlo cychwynnol, cewch wahoddiad i ddod i'r asesiad ysgrifenedig. Caiff llyfryn gwybodaeth ei anfon atoch i'ch cynorthwyo wrth i chi baratoi am y prawf .

Holiadur Ymladdwyr Tân Cenedlaethol (NFQ)

Mae'r Holiadur Ymladdwyr Tân Cenedlaethol wedi'i ddylunio'n arbennig fel rhan o broses ddethol ymladdwyr tân ac mae'n cael ei defnyddio fel prawf goddrychol, dilys a theg o rai o'r rhinweddau a phriodoleddau personol (PQAs) sydd eu hangen i wneud eu gwaith yn effeithiol.

Caiff cyfres o ddatganiadau ei chyflwyno i chi a chewch eich gofyn i nodi i ba raddau rydych yn cytuno â phob un, "Mae pawb yn haeddu cael ei drin yn deg". Trwy edrych ar yr atebion a rowch, rydym yn gallu ennill dealltwriaeth o'ch arddull mewn saith maes gwahanol. Er mwyn cael eich dethol yn ymladdwr tân/ymladdwraig dân dan hyfforddiant, bydd angen i chi ddangos bod gennych y rhinweddau personol ym mhob un o'r meysydd hyn.

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys:

- Ymroddiad i Amrywiaeth h.y. i ba raddau rydych yn deall ac yn parchu amrywiaeth ac yn mabwysiadu ymagwedd deg a moesegol tuag at eraill.
- Bod yn Agored i Newid h.y. i ba raddau rydych yn agored i newid ac yn ceisio cefnogi newid yn frwdfrydig.
- Hyder a Gwydnwch h.y. i ba raddau rydych yn cadw ymagwedd hyderus a gwydn mewn sefyllfaoedd heriol iawn.
- Gweithio gydag Eraill h.y. i ba raddau rydych yn gweithio'n effeithiol gyda phobl eraill.
- Ymwybyddiaeth Sefyllfaol h.y. i ba raddau rydych yn cadw ymwybyddiaeth weithredol o'r amgylchedd i hyrwyddo gwaith diogel ac effeithiol.
- Ymroddiad i Ragoriaeth h.y. i ba raddau rydych yn gydwybodol ac yn mabwysiadu ymagwedd ragweithiol tuag at eich gwaith er mwyn cyflawni a chadw safonau rhagorol.

Prawf Trin Rhifau NFA

Mae prawf Trin Rhifau NFA yn asesu'ch gallu i ddeall a gweithio gyda gwybodaeth rifol o'r math rydych yn debyg o'i phrofi fel ymladdwr tân/ymladdwraig dân. Caiff cyfres o sefyllfaoedd ei chyflwyno i chi, gan ddefnyddio gwybodaeth o graffiau, tablau, deialau a medryddion a gofynnir cwestiynau i chi sy'n perthyn i bob un o'r rhain. Mae angen i ymladdwyr tân allu ychwanegu, tynnu, lluosi a rhannu, yn ogystal ag amcangyfrif data rhifol.

Prawf Deall Gwybodaeth NFA

Mae Prawf Deall Gwybodaeth NFA yn asesu'ch gallu i ddarllen a deall gwybodaeth ysgrifenedig o'r math rydych yn debyg o'i phrofi fel ymladdwr tân/ymladdwraig dân. Cafodd cyfres o sefyllfaoedd ei chyflwyno i chi, gyda gwybodaeth mewn amrywiaeth o fformatiau gan gynnwys gwybodaeth diogelwch tân, memos, newyddlenni a darnau llawlyfr cwrs hyfforddiant a gofynnir sawl cwestiwn i chi am bob un o'r rhain. Yn nodweddiadol mae angen i ymladdwyr tân ddarllen a deall amrywiaeth o wybodaeth ysgrifenedig yn eu rôl a gallu tynnu gwybodaeth hanfodol a pherthnasol allan.

Prawf Ymwybyddiaeth Sefyllfaol a Datrys Problemau NFA

Mae'r Prawf Ymwybyddiaeth Sefyllfaol a Datrys Problemau NFA yn archwilio'ch gallu i sicrhau eich bod chi a phobl eraill yn ddiogel a'ch gallu i ddefnyddio gwybodaeth i ddatrys problemau. Cafodd cyfres o sefyllfaoedd ei chyflwyno i chi sy'n debyg i'r rhai y gallech eu hwynebu wrth weithio fel ymladdwr tân/ymladdwraig dân. Gofynnwyd i chi ddewis, o bedwar dewis, yr ateb a oedd yn disgrifio agosaf beth fyddech yn ei wneud ym mhob sefyllfa.

Dyslecsia

Caiff ymgeiswyr sydd â dyslecsia ragor o amser i sefyll y prawf, bydd hyn yn amodol ar gael asesiad ysgrifenedig gan weithiwr proffesiynol priodol.

CAM PEDWAR

ASESIAD CORFFOROL

Os ydych yn llwyddiannus yn yr asesiad ysgrifenedig, cewch eich gwahodd i fynychu'r asesiad corfforol. Mae hyn wedi'i ddylunio i asesu'ch lefel o ffitrwydd corfforol a'ch gallu i fod yn ymladdwr tân/ymladdwraig dân llawn amser. Os ydych yn llwyddiannus, cewch eich gwahodd i fynychu cyfweliad.

Bydd yr asesiad corfforol yn cynnwys:

Dringo Ysgol

Er mwyn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, bydd angen i chi ddangos hyder a defnyddio'r dechneg gywir i ddringo'r ysgol.

Cewch eich dangos sut i ddringo'r ysgol a sut i ddefnyddio'r clo coes. Yna cewch eich caniatáu i ymarfer y clo coes.

Byddwch yn dringo'r ysgol nes eich bod oddeutu 9 metr o lefel y llawr.
Ar yr adeg honno, byddwch yn defnyddio clo coes i ddiogelu'ch hunan i'r ysgol yna tynnu'ch dwylo o'r ysgol a phwyso yn ôl, gan edrych dros eich ysgwydd i adnabod gwrthrych sy'n cael ei ddal gan hyfforddwr ar lefel y llawr.

Pan fyddwch wedi adnabod y gwrthrych, dywedir wrthych am roi'ch dwylo yn ôl ar yr ysgol a rhyddhau'r clo coes.

Yna cewch eich cyfarwyddo i ddisgyn yr ysgol.

Prawf Gwacáu Anafusion

Er mwyn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, bydd angen i chi gyfuno cryfder a chydgysylltu hanner uchaf ac isaf y corff.
Bydd gofyn i chi lusgo dyn pren/dymi am 30 metr.

Gafaeliwch yn gadarn yn y llaw gario ar gefn pen y dymi gyda'r ddwy law.
Gan gadw'ch corff i fyny a'ch cefn yn syth, codwch y dymi.

Llusgwch y dymi o'r côn dechrau, gan gerdded tuag at yn ôl ar hyd y llwybr 30 metr i'r llinell orffen.

Bydd yr aseswr yn eich arwain felly nid oes angen troi o gwmpas i edrych am y gornel.
Bydd yr aseswr yn dweud wrthych pryd i droi.

Prawf Efelychu Codi Ysgol

Er mwyn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, bydd angen i chi gyfuno cryfder a chydgysylltu hanner uchaf ac isaf y corff i osod yr ysgol i'r taldra gofynnol a'i iselhau'n ddiogel o dan reolaeth. Y pwys a ychwanegir at y bar codi yw 15kg.

Dechreuwch y codiad gyda gafael dan ysgwydd a chledrau'ch dwylo i fyny.

Codwch a gyrrwch y bar hwnnw trwy'r parth newid arddwrn, gan wthio'r ysgol i fyny i gyrraedd y marc ar 182 cm.

Yna, o dan reolaeth, iselhewch y bar yn ôl i'w safle gorffwys, gan gadw'ch dwylo y tu mewn i le codi'r bar.

Mae'n rhaid i chi beidio â chyrcydu i ddechrau'r codiad.

Mae'n rhaid i chi wisgo menig.

Prawf Lle Caeëdig

Er mwyn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, bydd angen i chi gyfuno hyder, ystwythder a chryfder i drafod y ffordd ymlusgo.
Bydd angen i chi drafod ffordd ymlusgo.

Byddwch yn dechrau'r prawf yn gwisgo mwgwd wyneb gyda golwg clir.
Ewch drwy'r ffordd ymlusgo nes i chi gyrraedd yr aseswr ar ben arall yr uned, mae dim ond un ffordd trwy'r rhediad; ymlaen, chwith, de, neu i fyny, i lawr a does dim drysau i'w hagor.

Pan gyrhaeddwch y pen arall, bydd aseswr yn eich atal, rhoi gorchudd tywyllu dros eich mwgwd wyneb, eich troi o gwmpas a dweud wrthych am ddychwelyd ar hyd y llwybr rydych chi newydd gymryd.

Dylech gwblhau'r prawf heb beryglu'ch diogelwch a'ch lles.

Bydd eich amser yn dechrau cyn gynted ag yr ydych chi'n mynd i mewn i'r llwybr ymlusgo a bydd yn dod i ben pan ddewch allan.
Yr aseswr yn eich tapio ar yr ysgwydd ac yn dweud STOP fydd yn nodi'r diwedd.

Gallwch dynnu'ch hunain allan o'r prawf ar unrhyw adeg. Os yw'r swyddogion yn meddwl eich bod yn dioddef yn ddiangen, cewch eich tynnu allan o'r prawf

Prawf Cydosod Offer

Er mwyn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, bydd angen i chi gydosod ac yna dadosod yr offer yn y modd a ddisgrifir y tu mewn. Mae'r eitemau offer yn rhan o declyn hydrolig a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Tân ac Achub.

Ar ôl cydosod yr uned yn gyfan gwbl ac yn gywir yn ôl y cyfarwyddiadau a'r diagram, caiff cyfanswm eich amser cydosod ei nodi.

Yna, byddwch yn dechrau dadosod yr uned yn y drefn o chwith, gan roi pob eitem yn ôl ar y bwrdd yn y lle dynodedig. Ar ôl i chi gwblhau'r dadosod, bydd rhywun yn dweud wrthych "STOP" a chaiff eich amser ei gofnodi.

Os gwnewch unrhyw beth o'i le, bydd rhywun yn dweud wrthych "STOP" a'ch cyfeirio at y lluniau ar y wal.

Bydd hyfforddwr yn dangos sut mae gosod a dadosod yr uned, gan roi sylwebaeth wrth iddo fynd yn ei flaen.

Prawf Cludo Offer

Er mwyn cwblhau'r prawf yn llwyddiannus, bydd angen i chi gyfuno dygnwch, cryfder a chydgysylltu hanner uchaf ac isaf y corff.

Byddwch yn cludo offer dros hyd y cwrs, gan symud o gwmpas y ddau gôn sy'n cwmpasu pellter o 25 metr.

Bydd yr eitemau'n cael eu rhoi i lawr ar y llinell ddechrau/gorffen yn y drefn maen nhw i'w defnyddio.

Byddwch yn dechrau'n gydwastad â'r llinell hon, gan ddal y rîl bibell ar uchder eich canol.

Rhedwch gyda'r bibell i'r ail gôn a rhowch hi i lawr.

Rhedwch/lonciwch yn ôl i'r dechrau a chodwch y ddwy dorch o bibell goch wrth y dolenni.

Cludwch nhw i fyny ac i lawr y cwrs, sef 4 hyd, yna rhowch un i lawr yn ôl yn y lle â marc.

Codwch y llall wrth y clustiau canol a'i gludo wrth uchder y frest i lawr i'r ail gôn a'i rhoi i lawr, yna lonciwch dri hyd yn ôl i'r dechrau.

Codwch a chludwch y bibell arian syth a'r fasged i fyny ac i lawr y cwrs am 4 hyd a'u rhoi yn ôl yn y lle â marc.

Yna rhedwch/lonciwch i fyny ac i lawr y cwrs 4 hyd.

Yna codwch a chludwch y barbwysau i fyny ac i lawr y cwrs 4 hyd.

Nid oes rhaid i chi gofio trefn y digwyddiadau am y bydd yr aseswr yn eich arwain. Mae'n rhaid i chi beidio â rhedeg gydag offer ar wahân i'r rîl bibell ar y dechrau, ond cewch redeg neu loncian pan nad ydych yn cludo'r offer.

CAM PUMP – Y CYFWELIAD

Os ydych yn llwyddiannus yn yr asesiad corfforol, cewch eich gwahodd i
ddod i gyfweliad.

Bydd y cyfweliad wedi'i seilio ar bum rhinwedd a phriodoledd personol (PQA) a amlinellwyd isod, bydd hyn yn gyfle i chi roi gwybod i'r panel am eich sgiliau, eich galluoedd a'ch profiadau.

Ymroddiad i Amrywiaeth ac Uniondeb

Yn deall ac yn parchu amrywiaeth a mabwysiadu ymagwedd deg a moesegol at eraill.

Gweithio gydag eraill

Gweithio'n effeithiol gydag eraill yn y Gwasanaeth Tân ac yn y gymuned.

Cyfathrebu Effeithiol

Cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn ysgrifenedig.

Ymroddiad i Ddatblygiad

Ymroddiad i ddatblygu'ch hunain ac eraill ac yn gallu gwneud hynny.

Ymroddiad i Ragoriaeth

Yn mabwysiadu ymagwedd gydwybodol a rhagweithiol i weithio i gyflawni a chynnal safonau rhagorol.

Caiff adborth datblygu ei roi. Os ydych yn llwyddiannus yn y cam cyfweliad, bydd gofyn i chi gael archwiliad meddygol.

YR ARCHWILIAD MEDDYGOL

Os ydych yn llwyddiannus, bydd gofyn i chi gael asesiad meddygol. Mae ymladdwyr tân yn wynebu heriau corfforol a seicolegol mewn amgylchiadau sydd weithiau'n beryglus ac yn elyniaethus. Felly, eich cyfrifoldeb chi yw cynnal eich lefelau ffitrwydd ar hyd eich gyrfa gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n ymroddedig i'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DDA) a gall wneud cyfaddasiadau rhesymol, fodd bynnag ni ellir gwneud cyfaddasiadau i'r gofynion hanfodol a nodwyd yn y disgrifiad swydd.

Ledled y genedl mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub wedi adolygu'r rôl ac ystyried ein cyfrifoldebau o dan y DDA.

Bydd yr Asesiad Meddygol yn cynnwys y profion canlynol:

- Llenwi Holiadur Iechyd a Ffordd o Fyw.
- Craffter Gweledol.
- Awdiometreg.
- Sgrinio Pwysedd Gwaed.
- Mesur Taldra a Phwysau.
- Prawf Wrin.
- Prawf Gweithrediad yr Ysgyfaint.
- Prawf Cam Caer.
- Archwiliad meddygol y meddyg, gan gynnwys archwiliad meddygol cyffredinol a
    - Phrawf Canran Braster Corff.
    - Prawf Cryfder Gafael.
    - Prawf Cryfder Cefn a Choes.

Lliwddall

Archwiliad Golwg Sylwadau ar y safon golwg lliwiau sydd angen ar gyfer mynediad

Mae'n rhaid i ymladdwyr tân gweithrediadol gael lefel briodol o ganfyddiad lliwiau. Mae unigolion sydd â golwg lliwiau arferol neu ychydig yn arferol i liw gwyrdd yn addas i'w penodi i'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Mae gweithdrefn y prawf cymeradwyedig yn defnyddio'r prawf Ishihara fel y sgrin gychwynnol gyda dau brawf ychwanegol, sef Farnsworth D15 ac anomalosgôp Nagel, i bennu'r difrifoldeb a'r math o ddiffyg lliw. Caiff yr holl ymgeiswyr brawf gan ddefnyddio platiau Ishihara. Mae'r rhai sy'n llwyddo (heb wneud mwy na dau wall wrth nodi platiau) â golwg lliw arferol. Dylid rhoi prawf Farnsworth D15 i ymgeiswyr sy'n methu, a fydd yn pennu difrifoldeb eu diffyg lliw. Caiff ymgeiswyr sy'n methu prawf Farnsowrth D15 eu gwrthod fel ymgeiswyr anaddas. Dylid rhoi'r cyfle i'r rhai sy'n llwyddo gymryd y prawf trydydd cam, sef anaomalosgôp Nagel, i ganfod a oes gan yr unigolyn ddiffyg lliw ychydig yn goch neu ychydig yn wyrdd.

PENODI

Os ydych yn llwyddiannus ym mhob un o'r tri cham o'r broses ddethol, caiff cyflogaeth ei chynnig fel a phan fydd swydd wag yn codi, ac yn amodol ar anghenion a gofynion sefydliadol. Os nad oes swydd wag gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru, caiff eich manylion eu rhoi ar restr wrth gefn ac edrychir ar hon pan fydd swydd wag yn codi. Am fod y profion dethol yn ddilys dim ond am gyfnod, mae'r rhestr wrth gefn ar gael dim ond am gyfnod o 12 mis.

Mae cynnig cyflogaeth yn amodol ar eirdaon boddhaol a Chliriad Swyddfa Cofnodion Troseddol. Os caiff Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru eirdaon neu wiriadau anfoddhaol, caiff y cynnig cyflogaeth ei dynnu yn ôl.

Byddwch yn dechrau ar y Cwrs i Recriwtiaid. Ar ôl i chi gwblhau'r cwrs, cewch eich anfon at un o'n gorsafoedd llawn amser, ni all Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru sicrhau at ba orsaf y cewch eich anfon, felly mae'n rhaid i chi fod yn barod i wasanaethu yn unrhyw le yn ne Cymru.